CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGORADLONIANT 30 IONAWR 2018

Presennol
Cadeirydd – Cyng E R Hughes

E Lovgreen, W L Davies, I C Thomas, A Hopcyn , R Thomas, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**

Dim

2. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

3. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.**

Dim

4. **Adborth Digwyddiadau Nadolig**

Cafwyd Noson dda iawn

Sylwadau – Band Syr Hugh Owen yn wych – ond gwers i'r dyfodol peidio clirio cadeiriau tan ar ôl y digwyddiad

Ystyried carolau ar y maes fel rhan o'r dathlu'r geni gan bod hwnnw rhy hir a colli diddordeb y gynulleidfa

Angen symud lleoliad Sion Corn

Eira wedi gweithio yn dda

Theatr Seilo wedi gweithio yn arbennig o dda

Angen ystyried symud y goeden flwyddyn nesaf costau fandaliaeth uchel eleni

Y castell yn fodlon cydweithio ar y pwnc yma -felly efallai bod modd defnyddio Giât y Frenhines ac yna cynnal y noson Nadoligaidd wrth Lloyd George

Tendr goleuadau wedi dod i ben felly angen ystyried hyn cyn mynd allan i dendr fel bod yn rhan o'r briff

Y sgrin Fawr wedi bod yn llwyddiant mawr eto eleni ar tywydd yn sych iddo – efallai bod angen ystyried troi mewn am yr HSBC tro nesaf – mater i'w drafod

Penderfynwyd

1. Gofyn wrth yr ysgolion am adborth o'r Noson Nadoligaidd
2. Gofyn am gyfarfod efo pwyllgor Eglwysi i drafod y dathlu Geni a sut allwn ni newid hwnnw
3. Ystyried y lleoliad i'r goeden ac yna mynd allan i dendr
4. Ystyried rhoi y prif oleuadau ymlaen yn gynt bob blwyddyn unai 1af o Rhagfyr neu y diwrnod mae nhw yn gorffen eu gosod diwedd Tachwedd

5. Trefniadau Diwrnod Gŵyl Dewi

Penderfynwyd

- Cario mlaen gyda digwyddiad fel llynedd

Orymdaith o amgylch a trwy'r Castell i'r Maes lle fydd cyd ganu Calon Lan (traddodiadol) a Finlandia .

- Fydd angen archebu fflagiau llaw a bunting
- Llogi Mr Urdd (i fod yn ei dyddiadur)
- Gofyn wrth criw drymio Codi'r Tô Maesincla
- Ysgrifennu i bob côr yng Nghaernarfon i ofyn am gefnogaeth ar gyfer y canu
- Cystadleuaeth plant – creu Cennin Pedr – a gofyn i bob ysgol dewis y 5 gorau a rheini wedyn yn cael eu beirniadu ar Y Maes
- Angen llogi System Sain gan Michael Lambert a gofyn wrth Geraint Lovgreen am fenthyg ei allweddellau eto
- Fydd angen gwirfoddolwyr

Gorffennodd y cyfarfod am 6.05

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....